# Coetiroedd Dyffryn Gwy
# Wye Valley Woodlands
# Whitestone

## Coetiroedd Dyffryn Gwy Cyrchfan Arlunwyr a Beirdd

**Croeso i goetiroedd godre Dyffryn Gwy, rhai o'r prydferthaf ym Mhrydain.**

Mae gan bob tymor rywbeth arbennig i'w gynnig: clychau'r gog yn y gwanwyn, dail toreithiog yr haf, lliwiau godidog yr hydref, a harddwch amlinell y coed yn y gaeaf. Dewch i weld coed deri a ffawydd mawreddog ynghyd â'r onnen, y pren ceirios a'r bisgwydden dail mân. Rydym yn cynnal y golygfeydd hanesyddol trwy dorri'r coed. Maent yn cynnig golygfeydd ysblennydd ar draws ceunant ac afon Gwy, ar draws i Fôr Hafren a'r hen Bont Hafren. Gallwch fwynhau'r golygfeydd godidog hyn drwy gydol y flwyddyn ond yn enwedig yn y gaeaf, ar ôl i'r dail syrthio.

Yn gyfoeth o harddwch ac adnoddau naturiol, denwyd arlunwyr a diwydianwyr fel ei gilydd i Ddyffryn Gwy. Oherwydd helaethrwydd y siarcol, y calch, y pren, y dŵr a'r haearn, gwelwyd unwaith efeiliau, chwareli, odynau a melinau ar hyd a lled y dyffryn. Dyma fan geni twristiaeth ym Mhrydain, gan ddenu arlunwyr a beirdd o Turner i Wordsworth.

## Wye Valley Woodlands Haunt of Painters and Poets

**Welcome to the woodlands of the lower Wye Valley, some of the most beautiful in Britain.**

Every season offers something special: bluebells in spring, lush summer leaves, fantastic autumn colour, and the beauty of winter tree silhouettes. Discover stately oak and beech trees as well as ash, cherry and small-leaved lime. We maintain the historic viewpoints by cutting back the trees. These offer spectacular views across the Wye gorge and river, across to the Bristol Channel and the old Severn Bridge. You can enjoy these great views year-round but especially in winter, when the leaves have fallen.

Rich in natural beauty and natural resources, the Wye Valley has attracted both artists and industrialists. Abundant charcoal, limestone, timber, iron and water, meant the lower Wye valley once teemed with forges, quarries, kilns and mills. As the birthplace of British tourism, a tour down the Wye also drew painters and poets from Turner to Wordsworth.

### Dyffryn Gwy – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Mae Dyffryn Gwy yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol â'i thirwedd sy'n ryngwladol-bwysig ac wedi'i diogelu, yn pontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Fe'i dynodwyd yn 1971, ac amgylchyna 58 milltir o Afon Gwy sy'n enwog am olygfeydd ysblennydd o geunentydd, coetiroedd dyfnant a fferm-diroedd. Mae amrywiaeth o bartneriaid yn cydweithio i ddiogelu a gwella ei harddwch ar gyfer heddiw ac i'r dyfodol.

### Wye Valley – Area of Outstanding Natural Beauty

The Wye Valley Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) is an internationally important protected landscape straddling the border between England and Wales. Designated in 1971, it surrounds a 58 mile stretch of the River Wye recognised for its spectacular gorge scenery, ravine woodlands and intimate farmland. A range of partners work to conserve and enhance its beauty for now and the future.

**www.wyevalleyaonb.org.uk**





© Airbus Defence & Space a Getmapping.
Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Mehefin 2017
© Airbus Defence & Space and Getmapping.
Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – June 2017





### Rhyfeddodau Whitestone
### Wonders of Whitestone

Llwybr cerdded cylch **hawdd**
**Easy** circular walk

Pellter | Distance: 1½m/2.3km
Amser | Time: 1¼ awr | hours
Dringo: tir gwastad yn bennaf, un darn caregog
Climb: mainly level, one stony section

**UCHAFBWYNTIAU:** Gwelwch dri golygfan dros Dyffryn Gwy ac ewch yn eich ôl drwy gymysgedd deniadol o goetiroedd.

**HIGHLIGHTS:** Take in the three dramatic viewpoints over the Wye Valley and return through an attractive mix of woodlands.

### Golygfan Duchess Ride
### Duchess Ride Viewpoint

Llwybr cerdded syth **hawdd**
**Easy** linear walk

Pellter | Distance: 4m/6km
Amser | Time: 2 awr | hours
Dringo: tir gwastad yn bennaf
Climb: mainly level

**UCHAFBWYNTIAU:** Dilynwch y marciau llwybr ar gyfer Llwybr Dyffryn Gwy at rodfa o goed Pinwydd yr Alban a golygfan Duchess Ride a'r fainc - lle da i ginio! Dilynwch eich llwybr yn ôl i Whitestone.

**HIGHLIGHTS:** Follow the Wye Valley Walk waymarkers to an avenue of huge Scots Pine trees and the Duchess Ride viewpoint with a welcome bench - great lunch spot! Retrace your steps back to Whitestone.

### Oeddech chi'n gwybod?

Yr ysbrydolwyd arlunwyr fel Turner a beirdd fel Wordsworth gan Ddyffryn Gwy.

**Ffaith:** Ysgrifennodd Wordsworth "Lines Composed a Few Miles above Tintern Abbey" ger golygfan uchaf Whitestone.

### Did you know?

The Wye Valley inspired painters like Turner and poets like Wordsworth.

**In fact:** Wordsworth wrote "Lines Composed a Few Miles above Tintern Abbey" near the top Whitestone viewpoint.


Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi Hawlfraint y Goron. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100019741
This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100019741




Golygfan uchaf Whitestone | Whitestone top viewpoint

## Rhyfeddodau Whitestone

Croeso i Whitestone, lle cewch ddarganfod golygfannau hanesyddol wrth i chi gerdded llwybr 'Rhyfeddodau Whitestone' sy'n edrych dros geunant ac afon ddramatig Gwy. Mae'r golygfannau hyn ar hyd Llwybr Dyffryn Gwy, sy'n rhedeg o Gas-gwent yr holl ffordd i darddiad afon Gwy yng Nghanolbarth Cymru.

## The Wonders of Whitestone

Welcome to Whitestone, where you can discover some historic viewpoints along the 'Wonders of Whitestone' trail overlooking the dramatic Wye gorge and river. These viewpoints are on the route of the Wye Valley Walk which runs from Chepstow all the way to the source of the River Wye in Mid Wales.




LAWRLWYTHWCH EIN **HAPIAU DI-DÂL** ar gyfer Android ac iPhone

DOWNLOAD OUR **FREE APPS** for Android and iPhone

**PlacesToGo®** (CYMRU | WALES)

I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.

To find other great NRW places to visit in Wales.

iPhone / Android

**PlaceTales®** (CYMRU | WALES)

I ganfod nodweddion hynod ddifyr yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.

iPhone / Android

Casglwch **DAFLEN LLWYBRAU CERDDED** o'r dosbarthwr

Pick up a **WALKS LEAFLET** from the dispenser

| | |
|---|---|
| parcio / parking | toiledau / toilets |
| gwybodaeth / information | llwybr cyhoeddus / public footpath |
| llwybr marchogaeth / public bridleway | Llwybr Dyffryn Gwy / Wye Valley Walk |
| Llwybr Clawdd Offa / Offa's Dyke Path | caffi / café |
| llwybrau cerdded / walking trails | lle picnic / picnic area |
| maes chwarae / play area | golygfan / viewpoint |


www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000


wye valley – Area of Outstanding Natural Beauty | dyffryn gwy – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol


Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government